OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 1329

# Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 20) 2020

## RHAN 4

Diwygio Rhannau 1 a 2 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

**Diwygio Rhan 2 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (personau nad yw'n ofynnol iddynt gydymffurfio â rheoliadau 7 nac 8)**

**6.**—(1) Mae Rhan 2 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (personau nad yw'n ofynnol iddynt gydymffurfio â rheoliadau 7 nac 8), wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle paragraff 13 mewnosoder—

"**13.**—(1) Unrhyw berson y mae'r Adran berthnasol wedi ardystio ei fod yn bodloni'r disgrifiadau yn is-baragraffau (a), (b) neu (c)—

(a) gwas i'r Goron neu gontractwr llywodraeth y mae'n ofynnol iddo ymgymryd â gwaith plismona hanfodol neu waith llywodraeth hanfodol yn y Deyrnas Unedig yn ystod y cyfnod y byddai wedi bod yn ofynnol iddo, oni bai am y paragraff hwn, hunanynysu yn unol â rheoliadau 7 neu 8;

(b) person sy'n dychwelyd o gynnal busnes hanfodol y wladwriaeth y tu allan i'r Deyrnas Unedig;

(c) person sy'n dychwelyd i'r Deyrnas Unedig pan fo hynny'n angenrheidiol i hwyluso gweithrediad cenhadaeth ddiplomyddol neu swydd gonsylaidd Ei Mawrhydi, neu benodiad milwrol neu benodiad swyddogol arall ar ran Ei Mawrhydi.

(2) At ddibenion is-baragraff (1)—

(a) ystyr "swydd gonsylaidd" yw unrhyw brif gonswl, conswl, is-gonswl neu asiantaeth gonsylaidd,

(b) mae i "gwas i'r Goron" yr ystyr a roddir i "Crown servant" yn adran 12(1)(a) i (e) o Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol 1989,

(c) ystyr "gwaith llywodraeth hanfodol" yw gwaith sydd wedi ei ddynodi felly gan yr Adran berthnasol, ac mae'n cynnwys, yn benodol, waith sy'n gysylltiedig â diogelwch gwladol, gwaith yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol yn unol â'i swyddogaethau statudol, a gwaith sy'n ymwneud â mewnfudo, clefyd y coronafeirws neu unrhyw ymateb argyfwng arall, ond nid yw'n cynnwys gwaith o'r disgrifiad a bennir ym mharagraff 2(1) o Ran 1 o'r Atodlen hon,

(d) ystyr "plismona hanfodol" yw plismona sydd wedi ei ddynodi felly ar ran y prif swyddog perthnasol neu'r prif gwnstabl perthnasol,

(e) ystyr "busnes hanfodol y wladwriaeth" yw gweithgaredd a ddynodwyd yn hanfodol i'r Deyrnas Unedig neu Lywodraeth Ei Mawrhydi gan yr Adran

berthnasol, ac mae'n cynnwys, yn benodol, drafodaethau dwyochrog neu amlochrog â gwladwriaeth arall neu sefydliad rhyngwladol arall ac ymweliadau â gwladwriaeth arall ar ran y Deyrnas Unedig neu Lywodraeth ei Mawrhydi,

(f) mae i "contractwr llywodraeth" yr ystyr a roddir i "government contractor" yn adran 12(2) o Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol 1989.".

(3) Ar ôl paragraff 13 mewnosoder—

"**13A.**—(1) Person sy'n dychwelyd o ymgymryd â gwaith hanfodol neu waith brys y tu allan i'r Deyrnas Unedig, a ardystiwyd gan yr Adran berthnasol yn waith sy'n angenrheidiol i hwyluso gwaith llywodraeth hanfodol neu fusnes hanfodol y wladwriaeth.

(2) At ddibenion is-baragraff (1) mae i "gwaith llywodraeth hanfodol" a "busnes hanfodol y wladwriaeth" yr un ystyr ag a roddir iddynt ym mharagraff 13.".

(4) Ym mharagraff 35(a)(i) hepgorer "gan gynnwys gwaith sy'n ymwneud â chynnal a chadw ac atgyweirio ceblau tanfor sy'n cysylltu'r Deyrnas Unedig â gwledydd eraill,".

(5) Ar ôl paragraff 38 mewnosoder—

"**39.** Person —

(a) sy'n ymwneud â gosod, cynnal a chadw neu atgyweirio seilwaith telathrebu ffeibr optig tanfor,

(b) y mae ei rôl yn cefnogi yn uniongyrchol y gwaith o osod, cynnal a chadw neu atgyweirio seilwaith telathrebu ffeibr optig tanfor,

pan fo wedi teithio i'r Deyrnas Unedig yng nghwrs ei waith."